# Comisiwn y Cynulliad

Lleoliad:
**Presiding Officer's office, 4th floor - Tŷ Hywel**

Dyddiad:
**Dydd Iau, 8 Mai 2014**

Amser:
**10.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
**Carys Evans, 02920 89 8598**
Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn
0300 200 6565
sulafa.thomas@Cynulliad.Cymru

## Agenda AC(4)2014(6)

### 1 Cyflwyniad y Cadeirydd

**Cyflwyniad ac ymddiheuriadau**

**Datganiadau o fuddiant**

**Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol** (Tudalennau 1 - 3)
***papur 1***

### 2 Strategaeth Cyllideb 2015-16
***papur 2, rhannau a, b***

### 3 Adroddiad ar berfformiad corfforaethol Ebrill 2013-Mawrth 2014
***papur 3 rhannau a,b,c***

### 4 Adroddiad ar y Prif Bwyntiau Ionawr - Mawrth 2014 (Tudalennau 4 - 42)
***papur 4***

5 Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol 2013-14
***papur 5***

6 Y wybodaeth diweddaraf am y Gwasanaethau TGCh ar gyfer y dyfodol
***Adroddiad llafar***

7 Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg - y wybodaeth ddiweddaraf yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Ebrill
***Adroddiad llafar***

8 Papur i'w nodi – Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a gynhaliwyd ar 7 Ebrill (heb ei gymeradwyo eto)
***papur 6***

9 Unrhyw fater arall

# Comisiwn y Cynulliad

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Presiding Officer's office, 4th floor – Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 26 Mawrth 2014** |
| Amser: | **11.30 – 13.00** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion: AC(4)2014(4)

| | |
|---|---|
| Yn bresennol: | **Y Fonesig Rosemary Butler AC (Cadeirydd)**<br>**Peter Black AC**<br>**Sandy Mewies AC**<br>**Rhodri Glyn Thomas AC** |
| Swyddogion yn bresennol: | **Claire Clancy, Y Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad (Swyddog)**<br>**Dave Tosh, Cyfarwyddwr Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (Swyddog)**<br>**Anna Daniel, Clerc y Pwyllgor Busnes (Swyddog)**<br>**Craig Stephenson, Prif Gynghorydd y Llywydd (Swyddog)**<br>**Carys Evans, Prif Ysgrifennydd y Comisiwn (Swyddog)** |
| Eraill yn bresennol: | **David Melding AC, Y Dirprwy Lywydd** |

## 1 Cyflwyniad y Cadeirydd

1(i) Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

Cafwyd ymddiheuriad gan Angela Burns AC.

1(ii) Datganiadau o fuddiant

Nid oedd buddiannau i'w datgan.

1(iii) Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion cyfarfod 6 Mawrth.

## 2 Adroddiad y Prosiect Gwasanaethau TGCh yn y Dyfodol

Yn 2012, cynhaliodd y Comisiwn adolygiad strategol o'r ddarpariaeth o wasanaethau TGCh yn y dyfodol. Ym mis Rhagfyr 2012 penderfynodd Comisiwn y Cynulliad symud i wasanaeth TGCh mewnol a reolir gan y Comisiwn, a pheidio ag ymestyn y contract presennol gyda'r darparwr, Atos. Cytunodd y Comisiynwyr y dylid gwneud hyn heb gynyddu'r gyllideb flynyddol ar gyfer gwasanaethau TGCh.

Ers hynny, gwnaed cryn dipyn o waith i baratoi ar gyfer y cyfnod pontio hwn, sydd wedi'i oruchwylio drwyddi draw gan y Comisiwn. Darparwyd y prosiect ymhell o fewn ei gyllideb a'r amserlen. Rhoddwyd sicrwydd cryf gan KPMG, fel archwilwyr allanol. Roedd tîm mewnol medrus bellach ar waith i gwblhau'r cyfnod pontio a gweithredu strategaeth TGCh y Comisiwn. Fel yr amlinellwyd yn yr achos busnes ar gyfer y cyfnod pontio, byddai'r trefniadau newydd yn arbed arian, a fyddai'n cael ei ailfuddsoddi ac yn darparu gwasanaeth mwy hyblyg i ddiwallu anghenion defnyddwyr.

Cytunodd y Comisiynwyr yn unfrydol y dylid trosglwyddo'r cyfrifoldeb ar 7 Ebrill 2014.

Cadarnhaodd Dave Tosh fod trefniadau staffio digonol yn eu lle i sicrhau bod y cyfnod pontio mor llyfn â phosibl ac i leihau'r effaith yn ystod y cyfnod pontio. Byddai defnyddwyr gwasanaeth yn gallu cysylltu ag aelodau o'r tîm TGCh i drafod unrhyw ymholiadau sydd ganddynt neu faterion a allai godi.

Byddai'r trefniadau newydd yn sicrhau bod staff neu ddarparwyr dwyieithog yn gallu gweithio ar ystâd y Cynulliad a chyda swyddfeydd etholaethol.

Gwnaeth yr holl Gomisiynwyr longyfarch aelodau'r tîm TGCh ar eu gwaith caled yn cwblhau'n llwyddiannus y prosiect cymhleth hwn a fyddai'n sicrhau arbedion ariannol ac yn galluogi'r Cynulliad i arwain y ffordd o ran defnyddio TGCh.

## 3 Darpariaeth TGCh yn y Siambr yn y dyfodol

Mae'r cyfleusterau TGCh sydd ar gael i'r Aelodau yn y Siambr wedi bod ar waith ers agor y Senedd. Er bod y ddarpariaeth o gyfleusterau o'r fath yn wahanol ac yn anarferol o gymharu â seneddau a chynulliadau eraill, ar wahân i adnewyddu caledwedd, nid oedd natur 'sefydlog' y cyfleusterau wedi newid. Cytunodd y Comisiynwyr, gan y byddai angen diweddaru llawer o'r cyfleusterau o fewn y Siambr dros y ddwy flynedd nesaf, y dylent ystyried yr opsiynau sydd ar gael iddynt i roi'r ddarpariaeth orau bosibl i'r Aelodau.

Byddai strategaeth TGCh y Comisiwn yn golygu symud i atebion symudol a rhwydweithio di-wifr er mwyn cynnig ateb mwy hyblyg a llai ymwthiol sy'n addas ar gyfer y dyfodol i gael gafael ar wybodaeth. Gallai newid y trefniadau gyflwyno ystod o gyfleoedd newydd i ddarparu amgylchedd gweithio gwell i'r Aelodau, gan sicrhau ar yr un pryd y gellir cyflwyno arferion arloesol newydd.

Nodwyd y canlynol:

- mae Aelodau'n gweithio'n wahanol a byddai angen i unrhyw atebion ystyried hyn;

- dylid cadw cyfleuster negeseua yn y Siambr;
- dylid ymchwilio i'r opsiynau ar gyfer cadarnhau i'r Aelodau unigol sut y gwnaethant bleidleisio, ond na fyddai'n briodol i'r sgrîn lawn o wybodaeth fyw ar sut yr oedd pob Aelod yn pleidleisio gael ei harddangos i bawb;
- roedd anghysondebau gydag ansawdd y sain yn y Siambr o hyd; a
- efallai bod lle i wella'r oriel gyhoeddus hefyd.

Roedd nifer o opsiynau ar gael. Cytunodd y Comisiynwyr y dylid cynnal ymgynghoriad gyda'r Aelodau, gan gasglu barn grwpiau ac unigolion, i lywio penderfyniadau'r Comisiwn ar ddarpariaeth yn y dyfodol. Nododd y Comisiynwyr, er bod gofyn am farn defnyddwyr yn hanfodol, yn y pen draw byddai angen iddynt wneud y penderfyniadau gorau ar gyfer y dyfodol.

Cytunwyd, lle y bo'n bosibl, y dylid gwneud newidiadau'n raddol ac yn bwyllog fel y gellir gwireddu'r manteision yn gyflym.

## 4 Unrhyw Fusnes Arall

Byddai Adrian Crompton (Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad) yn mynd ar secondiad i'r Aifft er mwyn helpu i baratoi ar gyfer yr etholiadau seneddol a chefnogi dyddiau cynnar Senedd newydd yr Aifft. Nododd y Comisiynwyr y byddai Dave Tosh yn gweithredu fel Cyfarwyddwr dros dro TGCh a Busnes y Cynulliad yn ystod absenoldeb Adrian ac y byddai newidiadau dros dro yn cael eu gwneud ar lefel y Bwrdd Rheoli yn ystod y cyfnod hwn.

Nododd Rhodri Glyn Thomas ei fod wedi cael adborth cadarnhaol gan yr Aelodau, staff a rhanddeiliaid allanol ynghylch y cyfleuster Microsoft Translator.

Ar 3 Ebrill, byddai'r Comisiynwyr yn cynnal cyfarfod strategaeth i drafod eu blaenoriaethau ar gyfer gweddill y Pedwerydd Cynulliad.

**Yr Ysgrifenyddiaeth**

**Mawrth 2014**

Eitem 4

# Adroddiad uchafbwyntiau i'r Comisiwn

**Cynnwys**

**Adroddiad uchafbwyntiau i'r Comisiwn** ..... 3
1.0 Cyflwyniad ..... 3
**A. Nod strategol – darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf** ..... 3
2.0 Dylanwadu a pharatoi ar gyfer newid cyfansoddiadol ..... 3
3.0 Cefnogi Pwyllgorau ..... 4
4.0 Defnydd o'r Gwasanaeth Ymchwil gan Aelodau ..... 5
5.0 Ymgysylltiad â gwaith y Cynulliad ar faterion yr UE ..... 6
6.0 Y Bwrdd Taliadau ..... 7
7.0 Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu ..... 7
8.0 Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth ..... 8
9.0 Cyfieithu peirianyddol ..... 9
**B. Nod strategol – ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo Cymru** ..... 10
10.0 Microsoft Translator ..... 10
11.0 Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus ..... 10
12.0 Ymgysylltu â phobl ifanc ..... 11
13.0 Gweithgareddau allgymorth ..... 12
14.0 Digwyddiadau ..... 12
15.0 Y Cyfryngau Cymdeithasol ..... 12
16.0 Ailwampio mewnrwyd yr Aelodau ..... 13
17.0 Sylw i fusnes y Cynulliad yn y cyfryngau ..... 13
18.0 Hyrwyddo Cymru yn rhyngwladol ..... 13
**C. Nod strategol – defnyddio adnoddau'n ddoeth** ..... 15
19.0 Rhaglen fuddsoddi ..... 15
20.0 Archwilio Mewnol ..... 15
21.0 Llywodraethu gwybodaeth ..... 16
22.0 FiYw: Prosiect System Adnoddau Dynol a'r Gyflogres ..... 17
23.0 Materion staff ..... 17

24.0 Cydraddoldeb a hygyrchedd ........ 18
25.0 Gwaith ar ystâd y Cynulliad ........ 19
26.0 Mentrau cynaliadwyedd ........ 21
**D. Y wybodaeth ddiweddaraf am Faterion Ariannol ........ 22**
27.0 Cyllideb 2013-14 ........ 22
28.0 Cyfrifon blynyddol 2013-14 ........ 22
29.0 Gwerth am arian ........ 22
30.0 Llwyddiannau o ran gwerth am arian yn y Pedwerydd Cynulliad ........ 23
31.0 Cyllideb 2014-15 ........ 23
32.0 Caffael ........ 24
**E. Rhyddid Gwybodaeth ........ 25**
Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn ôl categori (Hydref 2013 - Mawrth 2014 ........ 25
Atodiad A Gwaith Pwyllgorau ........ 26
Atodiad B Ymgysylltiad â gwaith y Cynulliad ar faterion yr UE ........ 29
Atodiad C Sylw i Fusnes y Cynulliad yn y cyfryngau ers mis Ionawr 2014 ........ 33
Atodiad D Digwyddiadau ac ymweliadau rhyngwladol, gan gynnwys ymweliadau diplomyddol ........ 34
Atodiad E Prosiectau a adolygwyd gan y Bwrdd Buddsoddi ........ 36
Atodiad F - Rhyddid Gwybodaeth ........ 37

Ebrill 2014

# Adroddiad uchafbwyntiau i'r Comisiwn

### 1.0 Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad uchafbwyntiau yn crynhoi'r gwaith sydd wedi'i wneud yn ddiweddar, neu sy'n mynd rhagddo, i wneud cynnydd tuag at gyflawni nodau strategol y Comisiwn. Nod yr adroddiad yw rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i'r Comisiynwyr, er mwyn iddynt allu cyflawni eu swyddogaethau o ran goruchwylio a dwyn y rheolwyr i gyfrif. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau a phrosiectau allweddol ers mis Rhagfyr 2013.

## A. Nod strategol – darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf

### 2.0 Dylanwadu a pharatoi ar gyfer newid cyfansoddiadol

2.1 Mae'r Gwasanaeth Trawsnewid Strategol yn cydgysylltu gwaith sy'n ymwneud ag esblygiad y Cynulliad ar gyfer y dyfodol. Un o'r meysydd pwysig yw sicrhau ein bod yn barod i ymateb i ddatblygiadau cyfansoddiadol a dylanwadu arnynt.

2.2 O ganlyniad i dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Materion Cymreig ym mis Ionawr 2014, a gohebiaeth â Swyddfa Cymru gan y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid, mae Bil Cymru (yn wahanol i Fil drafft Cymru) bellach yn cynnwys datganoli rheolaeth ddeddfwriaethol dros weithdrefnau cyllidebol y Cynulliad. Mae hwn yn gam pwysig i sicrhau bod y Cynulliad mewn sefyllfa dda i graffu'n effeithiol ar y defnydd o'r pwerau i fenthyca ac amrywio trethi sydd ar fin cael eu rhoi i Lywodraeth Cymru. Rydym yn trafod yn rheolaidd â swyddogion Llywodraeth Cymru a Swyddfa Cymru i sicrhau bod dealltwriaeth o'r safbwyntiau hyn ac yr ymatebir iddynt lle y bo'n bosibl.

2.3 Yn ddiweddar, mae Comisiwn Silk wedi mynd i'r afael â nifer o faterion y tynnwyd sylw atynt gan y Llywydd yn ystod y sesiynau tystiolaeth. Mae'r adroddiad terfynol yn cynnwys sawl cyfeiriad at y dystiolaeth ysgrifenedig a llafar ddefnyddiol a ddarparwyd gan y Llywydd. O ganlyniad, mae Comisiwn Silk wedi gwneud yr argymhellion canlynol:

- dylid defnyddio model 'pwerau a gedwir yn ôl' yn ôl yn lle'r model 'pwerau a roddir' presennol;

- os yw'r Cynulliad am newid ei enw i Senedd Cymru, dylid parchu'r dewis hwnnw;
- mynd i'r afael â chapasiti a maint y Cynulliad; a
- cael gwared ar nifer o gyfyngiadau ar y Cynulliad nad ydynt yn briodol bellach.

## 3.0 Cefnogi Pwyllgorau

3.1 Cyhoeddwyd adroddiad y Comisiwn *Adolygiad o'r cymorth i bwyllgorau* ym mis Ionawr ac mae'r Llywydd wedi cyfarfod â'r rhan fwyaf o'r Cadeiryddion bellach i drafod eu dull o wireddu gweledigaeth y Comisiwn o gael pwyllgorau o'r radd flaenaf. Roedd y Cadeiryddion yn gadarnhaol am yr adroddiad, ac mae'r timau sy'n cynorthwyo pwyllgorau wrthi'n gweithio i nodi ffyrdd o wella'r cymorth a roddir yn y tymor byr a'r hirdymor. Mae'r opsiynau tymor byr yn cynnwys darparu mwy o ddeunydd briffio dwyieithog, mwy o gysondeb o ran sut y mae'r Aelodau'n cael eu papurau, Datblygu Proffesiynol Parhaus, a chynllunio rhaglenni gwaith pwyllgorau gan gymryd safbwynt mwy strategol.

*Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013*

3.2 Ar 1 Ebrill, daeth y newidiadau olaf i'r Rheolau Sefydlog, a oedd yn ofynnol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2013, i rym. Mae'r Ddeddf yn newid rôl y Cynulliad o ran goruchwylio Archwilydd Cyffredinol Cymru ac mae'n atgyfnerthu atebolrwydd a thryloywder y swydd honno. Sefydlodd y Bil Swyddfa Archwilio newydd i Gymru; bwrdd sy'n gyfrifol am y swyddogaethau corfforaethol a roddwyd i Archwilydd Cyffredinol Cymru yn flaenorol.

3.3 O safbwynt y Cynulliad, mae gweithrediadau Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r rôl lywodraethu mewn perthynas â Swyddfa Archwilio Cymru wedi'u rhannu'n glir. Mae gwaith Archwilydd Cyffredinol Cymru yn destun archwiliadau gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a'r Pwyllgor Cyllid sy'n gyfrifol am y rôl lywodraethu, gan gynnwys archwilio cyllidebau.

*Gwaith Pwyllgorau*

3.4 Mae amlinelliad o'r gwaith y mae'r Pwyllgorau wedi bod yn rhan ohono ar gael yn Atodiad A.


3.5 Mae'r camau newydd yn cynnwys:

- cyfarfodydd y Llywydd â Chadeiryddion Pwyllgorau i fabwysiadu gweledigaeth y Comisiwn o bwyllgorau o'r radd flaenaf yn llawn; a
- lansio sianelau newydd ar Twitter ar gyfer y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a'r Pwyllgor Menter a Busnes, ychwanegu at gyfrifon presennol y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd a'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, sy'n denu nifer gynyddol o ddilynwyr.

## 4.0 Defnydd o'r Gwasanaeth Ymchwil gan Aelodau

4.1 Mae Aelodau'r Cynulliad â'u staff yn parhau i wneud defnydd ardderchog o'r Gwasanaeth Ymchwil ar gyfer ymholiadau cyfrinachol, unigol ac ymchwil. Ar gyfer y cyfnod rhwng mis Rhagfyr a mis Mawrth 2013-14, cafwyd ymholiadau gan 52 o Aelodau'r Cynulliad (87%); gwnaeth 49 ohonynt (82%) o leiaf ddau ymholiad; roedd 46 ohonynt (77%) wedi gwneud o leiaf tri ymholiad a 45 ohonynt (75%) wedi gwneud o leiaf pedwar ymholiad.

4.2 Roedd yr ymchwilwyr wedi ymdrin ag 816 o ymholiadau rhwng mis Rhagfyr 2013 a mis Mawrth 2014, o gymharu â 685 yn ystod yr un cyfnod yn 2012-13. O ran yr holl waith ysgrifenedig y mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn ymdrin ag ef (gan gynnwys ymholiadau unigol, papurau briffio pwyllgorau, cofnodion blog, papurau briffio a baratowyd ymlaen llaw, a thaflenni ffeithiau i gynorthwyo'r Aelodau â'u gwaith etholaethol), cafwyd cynnydd o 977 i 1,177 yn ystod y cyfnod hwn o bedwar mis (gweler y siart isod).



4.3 Er mwyn helpu i deilwra'r cymorth hwn i anghenion cyfnewidiol yr Aelodau a'u staff, sefydlwyd Grŵp Gwella Busnes, yn cynnwys staff y Gwasanaeth Ymchwil a staff cymorth Aelodau'r Cynulliad o bob un o'r pleidiau. Rydym yn hyderus y bydd hyn yn rhoi gwell syniad o sut y mae'r Aelodau a'u staff yn gweithio, y pwysau y maent yn eu hwynebu a'r ffordd orau i'w cefnogi.

**5.0 Ymgysylltiad â gwaith y Cynulliad ar faterion yr UE**

5.1 Mae tystiolaeth glir o Frwsel mai Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw un o'r deddfwrfeydd mwyaf gweithredol o ran trafod materion yr UE, ac o ran ymgysylltu'n gadarnhaol â sefydliadau yr UE. Mae Swyddfa'r UE yn cynorthwyo Aelodau'r Cynulliad a'r Pwyllgorau yn hyn o beth. Mae'r swyddfa'n cydgysylltu ac yn cyfarwyddo gweithgareddau'r Cynulliad, y Gwasanaeth Ymchwil, pwyllgorau, gwasanaethau cyfreithiol a thimau eraill o fewn Comisiwn y Cynulliad yn yr UE.

5.2 Mae'r gwaith ym Mrwsel (a rhannau eraill o'r UE) yn gwneud Aelodau'r Cynulliad, gwaith y Cynulliad a'r dylanwad uniongyrchol sydd gan gynrychiolwyr y Cynulliad ar Bwyllgor y Rhanbarthau, sef Rhodri Glyn Thomas AC a Mick Antoniw AC, yn y broses o wneud penderfyniadau yn yr UE yn fwy gweladwy. Mae'r Cynulliad yn cymryd rhan yn y paratoadau ar gyfer dathliadau coffa'r Rhyfel Byd Cyntaf, gan gynnwys meithrin cysylltiadau cryf â Senedd Fflandrys (aeth Comisiwn y Cynulliad ar ymweliad ym mis Chwefror 2013), a bydd gweithgareddau cydweithio yn rhan o'r rhaglen weithgareddau dros y pum mlynedd nesaf.

5.3 Crëwyd @SeneddEurope, cyfrif Twitter y Cynulliad ar gyfer materion Ewropeaidd, ym mis Tachwedd, ac mae bellach wedi ennill ei blwyf fel ffordd o roi gwybod am weithgareddau Aelodau'r Cynulliad, y Pwyllgorau a'r Cyfarfod Llawn sy'n ymwneud â'r UE, a rhannu gwybodaeth sy'n berthnasol i Gymru ar agenda'r UE.

5.4 Mae rhagor o wybodaeth yn Atodiad B am y ffyrdd helaeth yr ydym yn ymgysylltu â gweithgareddau'r UE, ein gwaith agos gyda rhanddeiliaid ledled Cymru ac ym Mrwsel, gan gynnwys gweithgareddau aelodau Pwyllgor y Rhanbarthau a Chynhadledd Cynulliadau Deddfwriaethol Rhanbarthol Ewrop (CALRE). Bydd Gregg Jones yn bresennol yn un o gyfarfodydd y Comisiwn yn ddiweddarach eleni i drafod y gwaith hwn gyda'r Comisiynwyr.

## 6.0 Y Bwrdd Taliadau

6.1 Mae'r Bwrdd Taliadau wrthi'n trafod y pecyn cyflog llawn ar gyfer Aelodau Cynulliad y Pumed Cynulliad. Mae hyn yn cynnwys adolygiad o'u cyflogau, eu trefniadau pensiwn a'u lwfansau.

6.2 Yn dilyn pleidlais y Cynulliad ar 2 Ebrill i newid y rhestr o bobl sydd wedi'u gwahardd rhag bod yn aelodau o'r Bwrdd Taliadau, gwnaeth y Cwnsler Cyffredinol y gorchymyn angenrheidiol. Mae'r broses recriwtio ar waith i benodi aelod newydd o'r Bwrdd a Chadeirydd parhaol newydd. Yn y cyfamser, mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i gynnal cyfarfodydd rheolaidd ag Aelodau'r Cynulliad, Arweinwyr y Pleidiau a staff cymorth Aelodau'r Cynulliad, er mwyn cael amrywiaeth eang o safbwyntiau gwleidyddol ar bob elfen o'i gylch gwaith.

## 7.0 Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

*Prosiect Trosglwyddo ar gyfer Gwasanaethau yn y Dyfodol*

7.1 Yn eu cyfarfod ar 26 Mawrth, penderfynodd y Comisiynwyr drosglwyddo'r gwaith o reoli gwasanaethau TGCh o Atos i'r Comisiwn, yn weithredol o 7 Ebrill 2014. Roedd y Comisiynwyr wedi cael gwybodaeth reolaidd am hynt y paratoadau ar gyfer trosglwyddo, ac wedi cael sicrwydd gan y Bwrdd Prosiect, y Cyfarwyddwr TGCh a'r archwilwyr allanol, KPMG. Aeth y broses o drosglwyddo yn esmwyth iawn. Bydd y prosiect yn parhau tan 31 Gorffennaf 2014, a dyna pryd y daw'r holl drefniadau contract ag Atos i ben. Rhoddwyd y prosiect ar waith yn unol â gofynion yr amserlen a'r gyllideb, ac mae KPMG wedi canmol y trefniadau rheoli.

*Y Strategaeth TGCh*

7.2 Gyda'r prosiect trawsnewid ar fin dod i ben, bydd y ffocws yn troi at gyflymu'r broses o gyflwyno'r Strategaeth TGCh. Mae'r prosiect i greu gwefan newydd i'r Cynulliad eisoes yn mynd rhagddo, a bydd yn sicrhau gwefan llawer gwell i'r Comisiwn. Defnyddir platfform SharePoint i wneud hyn, a dyma fydd y system rheoli gwybodaeth sylfaenol ar gyfer y rhan fwyaf o'r systemau busnes a ddatblygir yn y dyfodol, gan gynnwys y gwaith o gyflwyno system newydd yn lle Medialon i'r Cyfarfod Llawn a'r Pwyllgorau. Mae'r gwelliannau parhaus i'r Senedd yn cynnwys gosod meicroffonau a chamerâu fideo newydd yn yr ystafelloedd pwyllgor. Cynhaliwyd profion llwyddiannus

ar feicroffonau newydd y Siambr, a gaiff eu gosod yn awr wrth bob sedd.

7.3 Tynnodd y prosiect trosglwyddo sylw at nifer o newidiadau sydd eu hangen o ran seilwaith, er enghraifft waliau tân newydd. Mae'r prosiect i greu fersiwn newydd o Senedd.tv ar fin dod i ben. Mae hwn yn ddatblygiad cyffrous gan y bydd yn galluogi defnyddwyr i wylio darllediadau byw, ac oedi ac ailchwarae'r deunydd, ac i chwilio drwy'r fideo cydamserol a Chofnod y Trafodion yn eu dewis iaith. Mae hefyd yn golygu y gellir cynnwys is-deitlau gyda'r ffrwd fideo er mwyn cyfeirio at eitemau ar yr agenda, enwau siaradwyr a mathau eraill o wybodaeth ddefnyddiol. Bydd system newydd Senedd.tv yn gwella'r broses o lunio Cofnod y Trafodion, drwy symleiddio'r ffordd y caiff ei fynegeio.

7.4 Gan ystyried y 12 mis nesaf, mae angen gwneud gwaith sylweddol ar seilwaith TGCh y Comisiwn, ar ôl trosglwyddo o Atos, er mwyn paratoi ar gyfer gwelliannau TGCh. Mae'r gwelliannau hyn yn cynnwys system wrth gefn newydd, datblygu cleient defnyddiwr newydd, uwchraddio pob gweinydd i Windows 2012, symud y system e-bost i blatfform newydd ac uwchraddio rhaglenni Microsoft Office. Mae angen gwneud hyn oll i sicrhau'r sylfaen hyblyg, hwylus a hawdd ei defnyddio sydd ei hangen ar y systemau TGCh. Mae angen rhoi'r system ffonau newydd ar waith erbyn mis Mawrth 2015 fan bellaf, a chyn hynny os yw'n bosibl. Tuag at ddiwedd 2014 bydd enw'r parth yn newid o .wales.gov.uk i .cynulliad.cymru / .assembly.wales, ar gyfer ein gwefannau a'n cyfeiriadau e-bost. Gwneir gwelliannau i'r Siambr yn raddol yn dilyn penderfyniad y Comisiwn i fwrw ymlaen i'w hadnewyddu. Bydd gwelliannau i wasanaethau yn y swyddfeydd rhanbarthol hefyd, yn enwedig o ran perfformiad y rhwydwaith a darparu capasiti diwifr.

## 8.0 Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth

Ers mis Ionawr, cymerwyd rhan mewn amrywiaeth eang o ymyriadau hyfforddiant a chyfleoedd datblygu. Yn ystod chwarter olaf 2013-14, cymerodd 34 o Aelodau'r Cynulliad ran mewn rhyw fath o weithgaredd datblygu proffesiynol parhaus, gan gynnwys wyth cyfranogwr newydd. Cymerodd Aelodau'r Cynulliad ran mewn cyfanswm o 138 o gyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2014.

Yn ystod yr un cyfnod, cymerodd cyfanswm o 96 o aelodau o staff cymorth Aelodau'r Cynulliad ran mewn cyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys:

- Craffu Ariannol
- Datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgorau
- Dosbarthiadau meistr craffu ar ddeddfwriaeth a gwelliannau
- Gwersi Cymraeg
- Hyfforddiant rheoli ac arwain
- Arfarniadau ac adolygiadau 360
- Ymdopi ag ymddygiad heriol
- Ysgrifennu areithiau

## 9.0 Cyfieithu peirianyddol

9.1 Mae'r Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi (TRS) wedi bod yn profi a yw defnyddio system cyfieithu peirianyddol yn cyflymu'r broses gyfieithu. Mae'r profion yn dangos bod system o'r fath yn gwella cynhyrchiant tua 20%. Mae'r gwaith o brofi Microsoft Translator, ers lansio cyfleuster ar gyfer y Gymraeg, yn mynd rhagddo. Bydd y gwaith hwn yn rhoi sylfaen dda inni werthuso'r opsiynau ar gyfer defnyddio cyfieithu peirianyddol yn TRS. Mae eisoes yn galluogi TRS am y tro cyntaf i gyfieithu papurau briffio pwyllgorau yn fewnol ar gais Aelodau. Yn awr, byddwn yn asesu pa gymorth ychwanegol y gallwn ei gynnig i'r Aelodau drwy ddefnyddio'r capasiti ychwanegol hwn.

9.2 Mae'r golygyddion sy'n gweithio ar y Cofnod a thrawsgrifiadau yn TRS wedi dechrau defnyddio MS Translator i hwyluso'r gwaith o gyfieithu cyfraniadau'r Aelodau yn Gymraeg, gan wneud y gwaith o gynhyrchu trawsgrifiadau'r Cyfarfod Llawn a chyfarfodydd pwyllgor yn fwy effeithlon.

9.3 Cynhaliwyd sesiynau briffio a sesiynau galw heibio i'r Aelodau a staff i hyrwyddo'r defnydd o Microsoft Translator. Yn ôl yr adborth a gafwyd yn y sesiynau gyda staff, mae cyfleuster Cymraeg Microsoft Translator wedi gwella prosesau gweithio'n ddwyieithog ym mhob rhan o'r Cynulliad. Mae wedi lleihau biwrocratiaeth a symleiddio'r broses o weithio mewn sefydliad dwyieithog, annog mwy o bobl i weithio'n ddwyieithog yn fewnol a helpu dysgwyr Cymraeg i atgyfnerthu ac adeiladu ar hyn y maent wedi'i ddysgu yn eu gwersi.

# B. Nod strategol – ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo Cymru

## 10.0 Microsoft Translator

10.1 Lansiwyd cyfleuster byd-eang y Gymraeg ar gyfer Microsoft Translator yn y Senedd ar 21 Chwefror, gan alluogi defnyddwyr Microsoft ledled y byd i gyfieithu testun i'r Gymraeg ac o'r Gymraeg. Roedd 59 o randdeiliaid allanol yn bresennol yn y lansiad. Mae'r fideo a ddangoswyd yn y lansiad bellach ar ffrwd YouTube y Cynulliad a'r dudalen Cyfieithu Peirianyddol ar y wefan, a dyma'r fideo mwyaf poblogaidd ond un yn hanes y Cynulliad. Cafodd y fideo ei wylio fwyaf yn y DU, yr UDA, yr Almaen, Hong Kong a Rwsia.

10.2 Cyrhaeddodd ddeunydd cyhoeddusrwydd y digwyddiad lansio hyd at 5 miliwn o bobl ledled y byd, gan hyrwyddo nid yn unig yr iaith Gymraeg ond y Cynulliad Cenedlaethol a'i bartneriaeth â Microsoft hefyd.

10.3 Rydym yn parhau i ymgysylltu â sefydliadau allweddol i'w gwahodd i rannu data dwyieithog â ni i'w bwydo i'r system i wella safon y cyfieithiadau. Yn ddiweddar, bu aelodau o staff TRS yn trafod eu profiadau o ddefnyddio Cyfieithu Peirianyddol gyda Chymdeithas Cyfieithwyr Cymru ac roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn.

10.4 Drwy ddefnyddio cyfleuster Cymraeg Microsoft Translator, mae'r Cynulliad yn gallu ymgysylltu'n fwy effeithlon â'r cyhoedd, gan fod staff yn gallu prosesu gohebiaeth a anfonir yn Gymraeg, ac ymateb iddi, yn gyflymach ac yn fwy effeithiol, yn enwedig yng nghyd-destun y cyfryngau cymdeithasol a dulliau cyfathrebu gwib anffurfiol eraill.

## 11.0 Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus

11.1 Fel rhan o ymgyrch Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus, ym mis Ionawr, lansiodd y Llywydd **Gynllun Datblygu** sydd wedi'i anelu at fenywod ym mhob rhan o Gymru. Bydd y cynllun yn darparu hyfforddiant dwys ym maes datblygiad personol a sgiliau, cymorth mentora un-i-un a chyfleoedd cysgodi rôl ar y lefelau uchaf. Y bwriad yw ysgogi ac annog cyfranogwyr ledled Cymru i wneud ceisiadau llwyddiannus am benodiadau cyhoeddus ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. Rydym yn cyflwyno'r cynllun ar y cyd â Chwarae Teg ac Ysgol Fusnes Caerdydd.

11.2 Er mwyn datblygu ymgyrch Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus ymhellach, sefydlodd y Llywydd **Clymblaid Menywod mewn Democratiaeth y Cynulliad**. Nod y glymblaid yw trafod arfer gorau, yn arbennig gan seneddau eraill o bob cwr o'r byd, er mwyn cynyddu'r gynrychiolaeth seneddol o fenywod. Bydd hefyd yn dysgu am y mesurau a roddir ar waith gan seneddau a phleidiau i sicrhau bod menywod yn cael eu cynrychioli ar lefelau amrywiol. Nod y glymblaid yw cyflwyno adroddiad ar ei chanfyddiadau a'i hargymhellion erbyn diwedd 2014.

11.3 Ers lansio **Porth Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus** y Llywydd ym mis Medi 2013, mae'r porth wedi'i ddatblygu ac mae wedi helpu i wella presenoldeb y Llywydd ar-lein. Mae'n cynnwys proffiliau menywod ysbrydoledig, cofnodion blog difyr a manylion am ddigwyddiadau sydd ar y gweill. Mae dilynwyr yr ymgyrch yn y cyfryngau cymdeithasol yn cynyddu bob wythnos, gan helpu i sicrhau bod ymgyrch Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus yn parhau i gael sylw.

11.4 Bydd **cyfres o ddarlithoedd** llwyddiannus y Llywydd, sy'n proffilio menywod mewn meysydd y mae dynion wedi bod yn flaenllaw ynddynt yn draddodiadol hefyd yn parhau yn 2014.

## 12.0 Ymgysylltu â phobl ifanc

12.1 Yn dilyn yr ymgynghoriad a gynhaliwyd y llynedd gyda bron i 3,000 o bobl ifanc, cytunodd y Comisiwn ym mis Chwefror i brif-ffrydio ymgysylltu â phobl ifanc ym mhob rhan o'r Cynulliad, gan alluogi pobl ifanc i ymuno â'r ddadl ynglŷn â'r hyn sy'n bwysig iddynt.

12.2 Lluniwyd cynllun gweithredu ac mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau y gallwn gyflawni'r 19 o gamau a nodir. Caiff rhywfaint o'r gwaith ei gwblhau cyn y digwyddiad lansio ar **16 Gorffennaf**, pan fyddwn yn dathlu'r ffyrdd y mae pobl ifanc eisoes wedi ymgysylltu â'r Cynulliad.

12.3 Cynhaliwyd dwy sesiwn galw heibio i Aelodau'r Cynulliad a'u staff gael rhagor o wybodaeth am yr ymgynghoriad a rhannu'r arfer gorau o ran ymgysylltu â phobl ifanc i'w gynnwys yn y pecyn cymorth. Mae'r Aelodau wedi bod yn gadarnhaol iawn am y gwaith a wnaed eisoes a'r dull prif-ffrydio. Eir ati i greu rhagor o gyfleoedd i'r Aelodau gymryd rhan cyn y lansiad.

## 13.0 Gweithgareddau allgymorth

13.1 Rhwng mis Ionawr a chanol mis Mawrth, mae'r tîm allgymorth wedi ymgysylltu â 225 o bobl mewn sesiynau codi ymwybyddiaeth cyffredinol, drwy grwpiau fel y Sgowtiaid a Menywod yn Gwneud Gwahaniaeth.

13.2 Cymerodd 551 yn rhagor o bobl ran mewn gweithgareddau sy'n ymwneud ag ymchwiliadau pwyllgor yn ystod y cyfnod hwn, gan gynnwys:

- grwpiau ffocws gyda grwpiau digartref a theithwyr sipsiwn fel rhan o'r gwaith craffu ar gyfer y Bil Tai (Cymru) yng Nghyfnod 1;
- sesiwn rwydweithio dros frecwast â busnesau o Gymru ar gyfer ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid i Cyllid Cymru;
- sgwrs ar y we â myfyrwyr ar gyfer yr ymchwiliad i Addysg Uwch; a
- chyfweliadau fideo â busnesau ar gyfer yr ymchwiliad i Fasnach a Mewnfuddsoddi.

## 14.0 Digwyddiadau

14.1 Cynhaliwyd cynhadledd flynyddol Llywodraeth a Gwleidyddiaeth Safon Uwch ym mis Chwefror, ac roedd y siaradwyr gwadd yn cynnwys Prif Weinidog Cymru a Paul Silk. Cafodd y digwyddiad lawer o sylw yn y wasg leol ac yn y cyfryngau cymdeithasol.

14.2 Cynhaliwyd Diwrnod i'r Teulu ar Ddydd Gŵyl Dewi yn y Senedd, gyda gweithgareddau celf a chrefft i blant yn y Neuadd a stondinau bwyd, arddangosiadau coginio ac adloniant cerddorol yn yr Oriel. Gwnaethom hefyd gynnal sesiynau sydyn, 15 munud, yn y Siambr i sicrhau bod ymwelwyr â'r Senedd yn cael cyfle i wella eu dealltwriaeth o'r Cynulliad â'i waith. Roedd y diwrnod yn llwyddiant mawr, gan ddenu 1,015 o ymwelwyr a dyma oedd un o'r diwrnodau prysuraf ers agor yr adeilad yn 2006.

## 15.0 Y Cyfryngau Cymdeithasol

15.1 Cafodd ein cyfrifon **Twitter** @cynulliadcymru ac @assemblywales eu dilysu'n swyddogol gan Twitter ym mis Mawrth, sy'n dyst i gymaint y mae ein cyfrifon wedi aeddfedu. Mae gan gyfrif @assemblywales sgôr o 60 ar Klout o hyd, sy'n golygu ei fod yn gyfrif dylanwadol. Ein nod yw sicrhau sgôr o 65.

15.2 Cyhoeddwyd ein cofnod mwyaf poblogaidd ar **Facebook** eleni pan rannwyd llun o'r Llywydd gyda chyn-brentisiaid.

15.3 Mae **YouTube** yn cael ei ddefnyddio mwy, ac yn well, i gyflwyno gweithgareddau'r Cynulliad. Yn ddiweddar, gwnaethom lwytho fideos eglurhaol am ymchwiliadau pwyllgor i lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon, hyfforddi tystion arbenigol a gwasanaethau bariatrig. Y fideo mwyaf poblogaidd ond un yn hanes y Cynulliad, o ran cyfanswm y munudau a wyliwyd, yw fideo Microsoft Translator.

## 16.0 Ailwampio mewnrwyd yr Aelodau

16.1 Gwnaethom ymrwymo i adolygu'r cynnwys a'r gwasanaethau a ddarperir ar y fewnrwyd mewn ymateb i adborth a gafwyd yn arolwg Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Lansiwyd y fewnrwyd ar ei newydd wedd ar 27 Mawrth. Mae'r dyluniad wedi'i seilio ar y gwasanaethau a ddarperir gan y Comisiwn i Aelodau'r Cynulliad.

16.2 Rydym wedi aildrefnu'r dudalen newyddion, gan ychwanegu nodweddion a gwasanaethau newydd i'w gwneud yn fwy defnyddiol a pherthnasol, gan gynnwys arddangos gwybodaeth o gyfrifon Twitter y Cynulliad.

## 17.0 Sylw i fusnes y Cynulliad yn y cyfryngau

17.1 Rhoddwyd llawer o sylw i fusnes pwyllgorau'r Cynulliad yn y chwarter olaf. Mae'r uchafbwyntiau'n cynnwys straeon ar dudalen flaen y Western Mail am adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Ardaloedd Menter ac adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar barodrwydd y GIG ar gyfer y gaeaf. Lansiwyd adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar Ddyfodol Masnachfraint Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau ar dren rhwng Caerdydd a Henffordd.

17.2 Lansiwyd adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar Lefelau Cyfranogiad mewn Chwaraeon mewn campfa yng Nghaerdydd.

17.3 Mae lincs i'r tudalennau newyddion ar gyfer y straeon pwysicaf ar gael yn Atodiad C.

## 18.0 Hyrwyddo Cymru yn rhyngwladol

18.1 Bydd Cangen Cynulliad Cenedlaethol Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad yn cynnal Cynhadledd Rhanbarth Ynysoedd Prydain a Môr

y Canoldir (BIMR) yn y Senedd ac ystâd y Cynulliad rhwng 27 a 29 Mai 2014. Dyma fydd y tro cyntaf i Gangen Cymru o'r Gymdeithas gynnal y gynhadledd nodedig hon ers 2002. Mae Cymru yn un o 13 o ganghennau Rhanbarth Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir ynghyd ag Alderney, Ynys Cyprus, Ynysoedd Falkland, Gibraltar, Guernsey, Ynys Manaw, Jersey, Malta, Gogledd Iwerddon, yr Alban, St Helena, a'r Deyrnas Unedig.

18.2 Thema'r Gynhadledd fydd "Cydraddoldeb Mynediad at Ddemocratiaeth", Er mwyn adlewyrchu rhai o flaenoriaethau strategol y Llywydd a Chomisiwn y Cynulliad bydd y gynhadledd yn cynnwys Cyfarfod Llawn a gweithdai ar: Annog Rhagor o Ferched i Gymryd rhan mewn Bywyd Cyhoeddus a Democratiaeth, Dwyieithrwydd a Rôl Ieithoedd Swyddogol yn y Senedd ac Ymgysylltu â Phobl Ifanc yn y Broses Ddemocrataidd.

18.3 Mae rhagor o wybodaeth am y gynhadledd, gan gynnwys rhaglen ddrafft, ar gael yma:

http://www.cynulliadcymru.org/bimr_draft_working_programme.pdf

18.4 Rhestrir y prif ddigwyddiadau ac ymweliadau rhyngwladol, gan gynnwys ymweliadau diplomyddol, yn Atodiad D.

# C. Nod strategol – defnyddio adnoddau'n ddoeth

## 19.0 Rhaglen fuddsoddi

19.1 Mae'r Bwrdd Buddsoddi yn parhau i gyfarfod bob pythefnos i gyflawni ei rôl strategol o oruchwylio a rheoli cyllideb fuddsoddi'r Comisiwn. Mae rhan helaeth o'r gwaith hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd ystyried y flaenoriaeth a roddir i brosiectau datblygu arfaethedig ac i wneud penderfyniadau ynghylch ariannu'r prosiectau hyn. Unwaith iddynt gael eu cymeradwyo, darperir adroddiadau rheolaidd ar gynnydd prosiectau i'r Bwrdd. Mae'r Bwrdd hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod alldro'r Cynulliad o fewn i'r gyllideb drwy fonitro alldroeon a rhagolygon misol a nodi cyfleoedd i ddefnyddio unrhyw adnoddau sydd ar gael yn y ffordd fwyaf effeithiol. Ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd, mae'r Bwrdd wedi ymgymryd â'r rôl ychwanegol o graffu ar gynigion am swyddi parhaol newydd a rhai dros dro. Bydd hyn yn sicrhau y defnyddir yr adnoddau sydd gennym eisoes mor effeithiol â phosibl a bod adnoddau newydd yn cael eu blaenoriaethu'n glir yn erbyn ein Nodau Strategol. Mae Atodiad E yn rhoi enghreifftiau o rywfaint o'r gwaith y mae'r Bwrdd wedi'i drafod ers mis Hydref 2013.

## 20.0 Archwilio Mewnol

20.1 Mae pethau wedi newid yn sylweddol yn yr adran Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ers penodi Pennaeth Archwilio Mewnol newydd a chwmni partner newydd a gaiff ei ariannu ar y cyd.

*Llwyddiannau*

20.2 Er gwaetha'r newidiadau, caiff yr archwiliad mewnol ei gwblhau yn unol â'r amserlen a chaiff Adroddiad Blynyddol a barn eu llunio mewn pryd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar 9 Mehefin.

20.3 Yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, datblygwyd Siarter Archwilio Mewnol gyntaf Comisiwn y Cynulliad ac fe'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd. Datblygwyd Cynllun Sicrhau Ansawdd a Gwella am y tro cyntaf hefyd.

20.4 Rhoddwyd trefniadau mwy ffurfiol ar waith o ran cydweithio'n effeithiol â chyrff archwilio allanol drwy ddatblygu protocol ar gyfer gwaith archwilio mewnol ac allanol.

*Monitro argymhellion archwilio mewnol*

20.5 Aed ati i ganolbwyntio'n fanylach ar argymhellion archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn, a chafwyd adroddiadau monitro rheolaidd ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Yn ôl yr adroddiad diweddaraf, o'r 115 o argymhellion a wnaed dros y tair blynedd diwethaf, mae 101 ohonynt bellach wedi'u cwblhau.

*Ychwanegu gwerth*

20.6 Mae Pennaeth yr adran Archwilio Mewnol yn cynnal Adolygiad o Effeithiolrwydd Comisiwn y Cynulliad ac fe'i comisiynwyd i gynnal ymarfer tebyg gyda'r Bwrdd Taliadau.

20.7 Mae hefyd yn cynrychioli Comisiwn y Cynulliad ar Fforwm Penaethiaid Archwilio Mewnol PwC a bydd yn croesawu swyddogion cyfatebol yn fforwm rhyngseneddol y DU a gynhelir yn y Cynulliad ym mis Gorffennaf 2014.

20.8 Mae ymrwymiad ehangach i wella ymwybyddiaeth staff ym mhob rhan o Gomisiwn y Cynulliad wedi cynnwys cyflwyniadau mewn cyfarfodydd tîm ar faterion allweddol gan gynnwys archwilio a sicrwydd, llywodraethu a risg. Cyflwynodd y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) sesiwn ar dwyll a chwythu'r chwiban.

**21.0 Llywodraethu gwybodaeth**

21.1 Gwnaed cynnydd pellach wrth atgyfnerthu prosesau llywodraethu gwybodaeth. A hithau'n flwyddyn ers dechrau defnyddio'r cofrestri asedau gwybodaeth newydd, rydym yn asesu'r cynnydd drwy gynnal hunanasesiadau gan berchnogion asedau gwybodaeth ac adolygiad gyda'r adran Archwilio Mewnol. Cyflwynwyd hefyd broses newydd i asesu, rheoli a throsglwyddo materion sy'n peri risgiau o ran gwybodaeth. Mae'r Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth wedi helpu Aelodau'r Cynulliad yn eu rolau rheoli data, a bydd yn parhau â gwaith ymweliadau cynghori Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth y llynedd drwy ddechrau rhaglen o ymweliadau â Swyddfeydd Etholaethol i roi cyngor i Aelodau a staff ar weithdrefnau ymdrin â gwybodaeth.

**22.0 FiYw: Prosiect System Adnoddau Dynol a'r Gyflogres**

22.1 Rhoddwyd system adnoddau dynol a chyflogres integredig newydd ar waith ac ym mis Tachwedd, am y tro cyntaf, defnyddiwyd y system i dalu'r holl Aelodau, staff cymorth, staff y Comisiwn a phensiynwyr a fu'n Aelodau Cynulliad.

22.2 Ym mis Mawrth, cafodd staff fynediad i elfen hunanarlwyo'r system sy'n gadael iddynt weld eu data preifat ac sy'n eu galluogi i: newid eu manylion personol; gwneud, rheoli ac awdurdodi ceisiadau am wyliau blynyddol; nodi absenoldeb; gweld ac argraffu slipiau cyflog electronig newydd; a chwblhau eu hadolygiadau perfformiad.

22.3 Caiff modiwlau ychwanegol eu cyflwyno dros y misoedd nesaf, gan gynnwys: fframwaith rheoli perfformiad gwell; modiwl dysgu a datblygu; recriwtio ar gyfer swyddi'r Cynulliad ar-lein; a chyfleuster hawliadau teithio a chynhaliaeth. Bydd FiYw hefyd yn cynnig ffordd well o reoli gwybodaeth, gyda mwy o gyfleoedd adrodd a fydd yn gwella adroddiadau ar staffio a chostau.

**23.0 Materion staff**

_Rheoli a datblygu perfformiad_

23.1 Mae'r Bwrdd Rheoli wedi cytuno ar welliannau i'r dull o reoli perfformiad yn y Comisiwn, gan gynnwys newidiadau i'r diwylliant rheoli perfformiad. Gwneir mwy i gefnogi rheolwyr a gwella ansawdd a chysondeb adolygiadau. Rhoddir y system newydd ar waith ym mis Medi. Bydd pob aelod o staff yn cael hyfforddiant a'r adnoddau i gefnogi'r newidiadau.

_Secondiadau_

23.2 Rhwng mis Hydref a mis Mawrth, cafwyd 26 o secondiadau mewnol a 15 o secondiadau allanol. Mae'r lleoliadau allanol wedi cynnwys Heddlu Dyfed Powys, Cyngor Sir Gwynedd, Chwaraeon Cymru, Senedd yr Alban, Tŷ'r Arglwyddi, Cynulliad Llundain a Swyddfa Brwsel. Mae'r lleoliadau hyn wedi rhoi cyfleoedd ardderchog i staff gael golwg ar y ffordd y mae sefydliadau eraill yn gweithio, yn ogystal â chyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau a'u profiadau a rhannu arfer da.

23.3 Bydd Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad, yn gweithio gyda chwmni dibenion cymdeithasol, Global Partners, yn yr Aifft a gwledydd eraill. Ei rôl yw helpu pleidiau gwleidyddol a staff seneddol

i baratoi at yr etholiadau seneddol a ddisgwylir yn yr Aifft yn nhymor yr hydref, ac yna i gefnogi gwaith y senedd newydd yn y cyfnod cynnar ar ôl iddi gael ei sefydlu. Bydd Adrian yn bwrw ymlaen a rhai o'i gyfrifoldebau fel rhan o'r Comisiwn, gan gynnwys cefnogi Bwrdd Taliadau'r Cynulliad Cenedlaethol.

*Gwella profiadau staff drwy fentrau lles corfforaethol*

Cynhaliwyd digwyddiad lles corfforaethol ym mis Mawrth – Byw'n dda Gweithio'n dda 2014. Roedd y sefydliadau a gymerodd ran yn cynnwys Cyngor Chwaraeon y Gwasanaeth Sifil, Gwasanaeth Gwaed Cymru, Hafal (elusen mwyaf blaenllaw Cymru i bobl â salwch meddyliol difrifol a'u gofalwyr), Mind Cymru, Dim Smygu Cymru, Diabetes UK, Campfa Vitality a Chaffi Pure.

*Recriwtio*

23.4 Rhwng 1 Hydref 2013 a 31 Mawrth 2014, hysbysebwyd 44 o swyddi gwag yn fewnol a hysbysebwyd 38 o swyddi gwag yn allanol. Roedd y penodiadau i swyddi cyhoeddus yn cynnwys Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Chadeirydd ac Aelod o'r Bwrdd Taliadau.

*Cynllun Prentisiaeth 2013-14*

23.5 Ymunodd chwe phrentis newydd â'r Cynulliad ym mis Chwefror. Dyma ail gynllun prentisiaeth y Cynulliad ac rydym wedi ymgorffori gwersi a ddysgwyd o'r cynllun peilot yn 2012-13. Mae'r prentisiaid yn gweithio ym mhob rhan o'r sefydliad, gan gynnwys swyddfa gogledd Cymru. Maent yn gweithio ochr yn ochr â'r staff presennol, ac yn ychwanegol at y staff presennol, gan gwblhau NVQ lefel2 mewn Gweinyddu Busnes.

## 24.0 Cydraddoldeb a hygyrchedd

*Cydnabyddiaeth allanol*

24.1 Mae'r Cynulliad yn dal i gael ei gydnabod fel un o'r cyflogwyr gorau i deuluoedd sy'n gweithio ac i bobl fyddar a phobl sy'n colli eu clyw. Yn ôl Stonewall, y Comisiwn yw cyflogwr gorau'r sector cyhoeddus yng Nghymru ar gyfer pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol, a chyrhaeddodd y Comisiwn rhif 11 ym mynegai 100 uchaf Stonewall o weithleoedd.

24.2 Cafodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei enwi yn rhestr y Times o'r 50 Cyflogwr Gorau ar gyfer Menywod yn y DU. Mae'r wobr, a gynigir gan y Times mewn partneriaeth â'r grŵp ymgyrch rhyw Opportunity Now, yn cydnabod y gwaith a wneir gan sefydliadau sy'n helpu menywod i barhau yn eu gyrfaoedd wrth gynnal ymrwymiadau teulu a gofal. Mae'r Cynulliad wedi'i gydnabod yn benodol am y ffordd y mae'n darparu amrywiaeth o opsiynau gweithio hyblyg.

*Cefnogi staff o grwpiau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BME) a chynyddu cynrychiolaeth Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn y gweithlu*

24.3 Datblygwyd cynllun gweithredu i gefnogi staff o gymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig er mwyn gwella cynrychiolaeth. Rydym wedi penodi cydgysylltydd newydd yn ddiweddar a fydd yn datblygu'r cynllun gweithredu.

*Gwobr 'Autism Access' y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol*

24.4 Bydd y Cynulliad yn cydweithio'n agos â'r Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol er mwyn sicrhau'r wobr arbennig hon drwy ddatblygu cynllun gweithredu'r flwyddyn nesaf. Mae'r dull gweithredu hwn yn unol â deddfwrfeydd eraill y DU, ac mae'n helpu i sicrhau bod ein hystâd a'r Cynulliad yn gyffredinol yn hygyrch i bobl ag awtistiaeth.

## 25.0 Gwaith ar ystâd y Cynulliad

*Arwyddion y Senedd*

25.1 Codwyd arwyddion arbennig o flaen ac ar ochr adeilad y Senedd. Rydym yn hyderus y bydd hyn yn annog rhagor o bobl i ymweld â'r Senedd ac yn gwneud y Cynulliad a'n hadeiladau yn fwy adnabyddus ym Mae Caerdydd.

*Gwaith diogelwch*

25.2 Rydym yn parhau i adolygu ein mesurau diogelwch i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r lefel gyffredinol o fygythiad i ddiogelwch y DU a'r ystyriaethau penodol o ran busnes a daearyddiaeth sy'n berthnasol i'r Cynulliad. Rydym hefyd yn ymwybodol o'r angen i daro cydbwysedd priodol rhwng cynnal ystâd agored, deniadol a hygyrch a sicrhau mesurau diogelwch effeithiol. Er mwyn helpu i daro'r cydbwysedd hwnnw, gosodwyd bolardiau dur gwrthstaen sy'n codi yn lle'r hen

rwystrau ar Stryd Pen y Lanfa, ac mae'r rhain yn bodloni gofynion a safonau cydnabyddedig o ran diogelwch. Gwnaed defnydd effeithiol o folardiau sy'n codi rhwng y Senedd a Chanolfan Mileniwm Cymru hefyd, a gosodwyd bolardiau sefydlog ar y palmant wrth ymyl y ffordd gyhoeddus y tu allan i Dŷ Hywel.

*Adnewyddu toiledau Tŷ Hywel yn raddol*

25.3 Fel rhan o'r blaengynllun cynnal a chadw, mae gennym raglen i adnewyddu'r toiledau yn Nhŷ Hywel. Nid yw'r toiledau wedi cael eu hadnewyddu ers agor yr adeilad ym 1992, a chafwyd mwy a mwy o alwadau cynnal a chadw am fod y toiledau'n blocio ac mae safon y toiledau o ran addurniadau a lloriau wedi treulio a gwaethygu hefyd. Mae'r gwaith o adnewyddu'r toiledau ar y llawr cyntaf a'r pedwerydd llawr wedi'i gwblhau, gan gynnwys gwella pibellwaith er mwyn lleihau'r achosion o flocio, gosod dodrefn glanweithdra, ciwbiclau, addurniadau, lloriau a goleuadau newydd. Rydym hefyd wedi sicrhau bod y ffitiadau'n cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd yn unol â'r arfer gorau ar hyn o bryd. Caiff y toiledau sy'n weddill eu hadnewyddu yn unol â rhaglen raddol dros y blynyddoedd nesaf.

*Gwelliannau i system wresogi'r Senedd*

25.4 Mewn ymateb i sylwadau ynghylch y tymheredd a drafftiau yn y Siambr, ystafelloedd cynadledda a swyddfeydd yn y Senedd, rydym wedi gwneud gwaith i wella'r system awyru naturiol y Senedd. Bydd hyn yn anfon gwres ategol i'r ffosydd tanddaearol i atal aer rhag cyrraedd y gofodau hyn ar dymheredd yr aer y tu allan. Gosodwyd gwresogyddion ac offer rheoli yn y ffosydd tanddaearol i leihau drafftiau yn ogystal â gwella capasiti gwresogi'r ystafelloedd. Roedd gan y boeler biomas ddigon o gapasiti i gyflenwi'r gwresogyddion ychwanegol ac, felly, ni fydd fawr ddim allyriadau carbon o ganlyniad i osod y system awyru naturiol hon. Gobeithio y bydd yn gwella amgylchedd y Siambr a'r ystafelloedd cynadledda ac yn eu gwneud yn fwy cyffyrddus i'r Aelodau.

*Gosod pared rhwng ystafelloedd pwyllgor 23 a 24*

25.5 Er mwyn cynnig mwy o hyblygrwydd wrth gynnal cyfarfodydd yn Nhŷ Hywel a gofod cyfarfod mwy o faint, gosodwyd pared y gellir ei symud rhwng ystafelloedd pwyllgor 23 a 24.

## 26.0 Mentrau cynaliadwyedd

*Datblygu Trywydd Lleihau Carbon*

26.1 Yn dilyn gwaith llwyddiannus gyda'r Ymddiriedolaeth Garbon a phartneriaid, ac i helpu gyda'n nodau cynaliadwyedd a'n llwyddiannau hyd yma, buom yn gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Garbon ac Arup i ddatblygu Trywydd Lleihau Carbon er mwyn nodi mentrau a gwelliannau cynaliadwyedd ar gyfer y dyfodol. Mae'r trywydd yn nodi targedau ar gyfer y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir, er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i leihau ein hallyriadau carbon ac yn adeiladu ar lwyddiant ein Strategaeth Rheoli Carbon. Caiff y trywydd ei gyflwyno i'r Comisiwn ym mis Mai a bydd yn darparu cynllun clir i ategu ein nodau o ran cynaliadwyedd.

# D. Y wybodaeth ddiweddaraf am Faterion Ariannol

## 27.0 Cyllideb 2013-14

27.1 Drwy'r flwyddyn ariannol, roedd rhagamcan y Comisiwn o fewn y dangosyddion allweddol o ran perfformiad ariannol. Yn benodol, i gyflawni alldro o 1% neu lai, er mwyn sicrhau £500,000 o arbedion Gwerth am Arian ac i dalu anfonebau a hawliadau treuliau o fewn deg diwrnod.

27.2 Ddiwedd mis Chwefror

- roeddem wedi rhagori ar y targed Gwerth am Arian;
- rydym yn disgwyl alldro o 0.2% ar ddiwedd y flwyddyn neu tua £100,000; ac
- mae'r wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad o ran taliadau prydlon yn dangos ein bod yn ymdrin ag anfonebau cyflenwyr a hawliadau treuliau o fewn pedwar diwrnod.

## 28.0 Cyfrifon blynyddol 2013-14

28.1 Bydd yr archwiliad blynyddol yn dechrau ar 3 Mehefin 2014 ac mae'r gwaith yn mynd rhagddo'n dda i lunio cyfrifon diwedd y flwyddyn. Mae'r tîm Gwasanaethau Ariannol wedi dosbarthu cyfarwyddiadau manwl ac mae'n cynnig gweithdai i helpu Cydgysylltwyr Cyllid gyda'r data sydd eu hangen. Mae Aelodau'r Cynulliad wedi cael gwybod mai'r dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno hawliadau 2013-14 yw 30 Ebrill 2014.

## 29.0 Gwerth am arian

29.1 Cyflawnwyd y targed gwerth am arian, sef £500,000, erbyn diwedd mis Rhagfyr 2013, gan olygu ein bod wedi cyflawni'r targed am flwyddyn arall yn olynol. Yn debyg i'r blynyddoedd diwethaf, sicrhawyd yr arbedion mwyaf drwy reoli swyddi gwag. Fodd bynnag, ers penodi Pennaeth Caffael, gwelwyd cynnydd o ran sicrhau a chynnal arbedion o ran contractau.

29.2 Ym mis Tachwedd, cawsom ad-daliad ardrethi £680,000, ar ôl ailbrisio ein Hystâd. Mae'r ad-daliad hwn yn berthnasol i flynyddoedd 2010-11 a 2013-14. Bydd yr ailbrisiad yn sicrhau arbedion ychwanegol ar ardrethi o £190,000 y flwyddyn hyd at 2017 a bydd yr

arian hwnnw'n cael ei ailfuddsoddi yng ngwasanaethau'r Comisiwn yn unol â blaenoriaethau strategol.

## 30.0 Llwyddiannau o ran gwerth am arian yn y Pedwerydd Cynulliad


30.1 Rydym wedi cyflawni neu ragori ar ein targed o ran gwerth am arian ar gyfer pob blwyddyn o'r Pedwerydd Cynulliad.

| | Targed | Yr hyn a gyflawnwyd |
|---|---|---|
| 2011-12 | £0.350 miliwn | £0.530 miliwn |
| 2012-13 | £0.470 miliwn | £0.470 miliwn |
| 2013-14 (o fis Rhagfyr) | £0.500 miliwn<br>20% o arbedion nad ydynt yn ymwneud â staff | £0.508 miliwn |
| Arian annisgwyl ardrethi 2013-14 | | £0.680 miliwn |
| 2014-15 | £0.500 miliwn | |
| 2015-16 | £0.500 miliwn | |

## 31.0 Cyllideb 2014-15

31.1 Cyllideb gymeradwy 2014-15 yw blwyddyn olaf strategaeth fuddsoddi tair blynedd y Comisiwn ac mae'n darparu £14.1 miliwn ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau o ran cyflogau Aelodau'r Cynulliad a £36.5 miliwn ar gyfer gwasanaethau'r Cynulliad. Yn y gyllideb hon, bydd £1.7 miliwn ar gael ar gyfer buddsoddiadau i ddatblygu blaenoriaethau strategol y Comisiwn.

*Cost Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2014-15*



## 32.0 Caffael

32.1 Dyma’r ail flwyddyn lawn inni arfer dull gweithredu newydd y Cynulliad o ran caffael ac rydym yn falch o’r cynnydd a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf. Rydym wedi dyfarnu rhagor o gontractau dros £25,000 ac wedi sicrhau rhagor o arbedion caffael nag a wnaed yn y flwyddyn gyntaf.

32.2 Rydym yn parhau i flaenoriaethu ffrwd gwaith masnachol y Rhaglen Gwasanaethau TGCh yn y Dyfodol ac rydym ar y trywydd iawn i ddarparu’r contractau sydd eu hangen erbyn mis Gorffennaf 2014. Rydym yn agos at gwblhau’r contract ar gyfer Legislative Workbench, y contract cefnogi caledwedd a’r contract peirianwyr maes.

32.3 Yn y chwarter olaf, dyfarnwyd tri chontract yn rhagor – Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus, datblygu gwefan SharePoint a’r contract ar gyfer cynnal a chadw’r bws allgymorth a’i gadw mewn garej.

32.4 Y llynedd, aeth 71% o’r contractau a ddyfarnwyd gennym a oedd werth dros £25,000 i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru.

*Mesurau perfformiad allweddol*

| Mesur | 2012-13 | 2013-14 |
|---|---|---|
| Contractau a ddyfarnwyd (gyda’r adran Gaffael yn chwarae rhan lawn) | **7** | **12** |
| Arbedion caffael | **£254,964** | **£283,209** |

*Arfer da*


32.5 Cynhaliwyd cwrs hyfforddiant rheoli ar ddiwedd mis Ionawr a gyflwynwyd gan y Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi (CIPS). Roedd pob aelod o’r tîm Caffael yn bresennol ar y cwrs deuddydd. Roedd cydweithwyr o’r adran Rheoli Cyfleusterau a’r adran TGCh sy’n gyfrifol am reoli contractau hefyd yn bresennol.

## E. Rhyddid Gwybodaeth

32.6 Mae rhestr o wybodaeth a ddatgelwyd o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth i'w gweld yn Atodiad F. Mae hyn yn berthnasol i'r cyfnod rhwng mis Hydref 2013 a mis Mawrth 2014 ac mae wedi cael ei chategoreiddio i ddangos pwnc y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae'r rhestr hefyd yn cynnwys manylion am y wybodaeth gafodd ei dal yn ôl o ganlyniad i eithriadau Rhyddid Gwybodaeth.

32.7 Mae'r siart isod yn dangos y 37 o geisiadau yn ôl categori. O blith y 37 o geisiadau a gafwyd, nid oedd unrhyw eithriadau ar sail amser a chost, ond cafodd wybodaeth ei dal yn ôl mewn perthynas â 15 ohonynt. Yn achos pedwar cais, roedd angen gwneud llai o waith i baratoi'r ymateb, neu nid oedd angen gwneud dim gwaith, oherwydd bod y wybodaeth ar gael yn gyhoeddus ar wefan y Cynulliad.

**Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn ôl categori (Hydref 2013 - Mawrth 2014**




**Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn ôl nifer**

| Nifer | Ionawr-Rhagfyr 2012 | Ionawr-Rhagfyr 2013 | Ionawr-Mawrth 2013 | Ionawr-Mawrth 2014 |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm ceisiadau | 79 | 67 | 26 | 16 |
| Gwybodaeth a ddaliwyd yn ôl | 13 | 16 | 1 | 8 |
| Dim gwybodaeth wedi'i chadw | 13 | 3 | 0 | 1 |
| Eithriadau ar sail amser/cost | 1 | 0 | 0 | 0 |

## Atodiad A Gwaith Pwyllgorau

Y tymor hwn, mae Pwyllgorau wedi bod yn gwneud y canlynol:

*Deddfu*

- Cwblhau trafodion y Cynulliad ar gyfer y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol) a'r Bil Addysg (y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc).
- Cefnogi'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i drafod egwyddorion cyffredinol y Bil Tai.

*Craffu*

- Cwblhau ymchwiliadau i amrywiaeth o bynciau gan gynnwys gordewdra ymysg plant a Chymru yn Ewrop.
- Dechrau ymchwiliadau newydd i Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), twristiaeth a deddfu.
- Clywed tystiolaeth yn y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol gan Syr Paul Williams a chomisiynwyr eraill am adroddiad Comisiwn Williams ar lywodraethu a darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.
- Clywed tystiolaeth yn y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol gan yr Arglwydd Patten (Cadeirydd Ymddiriedolaeth y BBC) a'r Arglwydd Hall (Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC) yn ogystal â S4C, ITV Cymru ac Ofcom, yn dilyn gwaith ar ragolygon y cyfryngau yng Nghymru ar gyfer y dyfodol.
- Craffu'n fanwl ar drafodaethau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ynghylch y rheoliadau TEN-T a CEF Ewropeaidd, gan ganfod hepgoriadau y mae'r Gweinidog a swyddogion yn mynd i'r afael a hwy bellach (Pwyllgor Menter a Busnes).
- Arbrofi drwy beidio â chasglu unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig i'r gwaith craffu untro ar gyfer WOMEX 2013, ac ysgrifennodd y Pwyllgor lythyr at y Gweinidog i'w longyfarch yn dilyn hynny.
- Sesiwn graffu gyntaf erioed ar wariant y Llywodraeth o gyllideb diwedd y flwyddyn (y Pwyllgor Menter a Busnes).

- Defnyddio cyngor arbenigol yn ddoeth yn sgîl ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i dechnolegau meddygol.

*Datblygu*

- Cyfarfodydd y Llywydd â Chadeiryddion Pwyllgorau i fabwysiadu gweledigaeth y Comisiwn o bwyllgorau o'r radd flaenaf.
- Cytuno ar drefniant gweithredu newydd gyda Llywodraeth Cymru i adlewyrchu ffordd fwy aeddfed a ffyddiog o weithio, gyda datblygiadau sylweddol o ran y dyddiadau cau y cytunnir arnynt am dystiolaeth ysgrifenedig a gohebiaeth rhwng swyddogion.
- Cefnogi dau Gadeirydd newydd (ar y Pwyllgor Menter a Busnes a Phwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd).
- Cynnig hyfforddiant ariannol pellach i Aelodau, staff cymorth Aelodau'r Cynulliad a swyddogion.
- Gweithio mewn partneriaeth a Chwarae Teg ar raglen hyfforddi tystio arbenigol i annog mwy o fenywod mewn bywyd cyhoeddus i roi tystiolaeth lafar i bwyllgorau'r Cynulliad.
- Mae pwyllgorau'n trafod dulliau strategol ar gyfer y cyfnod sy'n weddill o'r Pedwerydd Cynulliad.

*Hyrwyddo*

- Profiad cwbl newydd i'r Cynulliad pan lansiwyd yr adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar y Fasnachfraint Rheilffyrdd ar drên a dros y ffin (yn Henffordd). Cafwyd croeso cynnes ar y platfform gan grwpiau defnyddwyr sy'n dibynnu ar wasanaethau sy'n croesi'r ffin.
- Lansio sianelau newydd ar Twitter ar gyfer y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a'r Pwyllgor Menter a Busnes, yn ychwanegol at gyfrifon presennol Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd a'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y mae eu dilynwyr ar gynnydd.
- Lefel dda o sylw yn y wasg i waith fel yr adroddiad ar gyfranogiad mewn chwaraeon yng Nghymru.
- Roedd ail ran adroddiad Silk yn adlewyrchu argymhellion y Pwyllgor Menter a Busnes y dylid datganoli ymhellach rai pwerau sy'n ymwneud â thrafnidiaeth.

*Estyn allan*

- Roedd yr ymchwiliad i ganlyniadau addysgol plant o gartrefi incwm isel (y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc) yn cynnwys ymweliad ag ysgol yn y Bari a grwpiau ffocws yn Abertawe a Wrecsam.
- Roedd y gwaith ymchwil i'r ffeithiau ar gfyer yr ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Busnes i gyfleoedd cyllido'r UE yn cynnwys ymweliad a Brwsel i ymgysylltu a swyddogion y Comisiwn a phartneriaid Ewropeaidd eraill, ac ymgysylltu a myfyrwyr a staff o Brifysgol Caerdydd a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd mewn grwpiau trafod anffurfiol.
- Tystiolaeth ar fideo gan fusnesau bach o Gymru i lywio ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Busnes i fasnach a mewnfuddsoddi.
- Roedd ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i wasanaethau bariatrig yn cynnwys cyfarfod oddi ar y safle yn Abertawe, ymweliad â WIMOS, a grwpiau ffocws oedd yn cynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol a chleifion.
- Cyfarfod llwyddiannus o Bwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd ym Mhrifysgol Aberystwyth ynglyn â rheoli tir yn gynaliadwy, i ystyried trosglwyddo gwybodaeth o ganolfannau ymchwil prifysgolion i berchnogion tir yn y maes, a chan gynnwys ymweliad â chyfleuster ymchwil blaenllaw IBERS. Gofynnodd y pwyllgor i randdeiliaid gyfrannu drwy ddod i gasgliadau a drafftio argymhellion mewn gweithdy ym Mae Caerdydd. Arweiniodd hyn at fireinio barn y Pwyllgor a bydd yn cyfrannu at adroddiad terfynol yr ymchwiliad.

**Atodiad B Ymgysylltiad â gwaith y Cynulliad ar faterion yr UE**

*Gweithgareddau Aelodau Pwyllgor y Rhanbarthau*

Mick Antoniw AC (ers mis Ebrill 2013) a Rhodri Glyn Thomas AC (ers 2010) yw cynrychiolwyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau. Yn ystod 2012-2013 Rhodri Glyn Thomas AC oedd 'rapporteur' (awdur) tri adroddiad i Bwyllgor y Rhanbarthau ar synergeddau rhwng cyllidebau (Ionawr 2013), cyllid cyhoeddus-preifat a rôl Banc Buddsoddi Ewrop (Ebrill 2013), a chymorth gwladwriaethol ar gyfer pysgodfeydd a dyframaethu (Tachwedd 2013). Mick Antoniw AC oedd y 'rapporteur' ar gyfer adroddiad ar gydweithredu yn yr UE rhwng Gwasanaethau Cyflogaeth Gyhoeddus (Tachwedd 2013). O ganlyniad i'r gwaith hwn, mae'r ddau wedi'u gwahodd i siarad mewn nifer o gynadleddau/seminarau lefel uchel yn yr UE ym Mrwsel a rhannau eraill o Ewrop. Cadeiriodd Rhodri Glyn ddwy gynhadledd yn ystod Wythnos Flynyddol Diwrnodau Agored Rhanbarthau yr UE ym mis Hydref 2012 a 2013, ac estynnwyd gwahoddiad iddo siarad mewn cynhadledd ddilynol yn Senedd Ewrop ym mis Mehefin ar ôl yr etholiadau.

Mae Mick Antoniw AC wedi chwarae rhan weithredol wrth i Bwyllgor y Rhanbarthau ymateb i'r argyfwng yn Wcrain. Ym mis Chwefror, roedd yn rhan o ddirprwyaeth wleidyddol lefel uchel i Kiev, dan arweiniad Llywydd Pwyllgor y Rhanbarthau, ac ym mis Ebrill cafodd gyfarfod dwyochrog â Dirprwy Is-brif Weinidog Ukrain. Hefyd, siaradodd ar ran ei grŵp gwleidyddol yn ystod dadl â'r Is-brif Weinidogion yng Nghyfarfod Llawn Pwyllgor y Rhanbarthau ym Mrwsel. Ar ôl hynny, enwebwyd Mick gan ei grŵp gwleidyddol i fod yn aelod o CORLEAP (grŵp trawsbleidiol Pwyllgor y Rhanbarthau ar gysylltiadau a gwledydd cyfagos ar ffin ddwyreiniol yr UE).

Ym mis Rhagfyr, cyflwynodd dirprwyaeth Cymru i Bwyllgor y Rhanbarthau (sy'n cynnwys cynrychiolwyr CLlLC, y Cynghorydd Bob Bright a'r Cynghorydd Chris Holley) ymateb gan Gymru i'r ddadl ar ddyfodol Pwyllgor y Rhanbarthau a gynhelir i nodi ugainmlwyddiant y Pwyllgor. Mae'r Cynulliad hefyd yn cymryd rhan ym Mhlatfform Monitro Sybsidiaredd Pwyllgor y Rhanbarthau a'i Grŵp Arbenigol ar Sybsidiaredd (sefydlwyd yr ail o'r rhain yn 2012). Roedd David Melding AC, y Dirprwy Lywydd, yn aelod o'r panel yn y Fforwm Sybsidiaredd a drefnwyd gan Bwyllgor y Rhanbarthau yn y Bundesrat ym Merlin ym mis Rhagfyr 2013, lle siaradodd am waith y Cynulliad ar faterion sybsidiaredd, a rhyngweithio â'r Comisiwn Ewropeaidd a deddfwrfeydd y DU yn hyn o beth. Yn y gynhadledd, daeth gwleidyddion a swyddogion uwch ynghyd o sefydliadau'r UE, seneddau cenedlaethol, a deddfwrfeydd yr is aelod-wladwriaethau ledled Ewrop, i drafod eu profiadau ac arfer o ran monitro sybsidiaredd.

*CALRE*

Y Cynulliad yw cynrychiolydd y DU ar gyfer CALRE (cynhadledd cynulliadau deddfwriaethol rhanbarthol Ewrop) ac mae'n rhan o Bwyllgor Sefydlog a nifer o grwpiau gwaith CALRE, gan gynnwys e-ddemocratiaeth, cydraddoldeb rhwng y rhywiau a sybsidiaredd. Y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd sy'n arwain y gwaith o gymryd rhan, gan gynnwys cyfarfodydd a gynhaliwyd ym Mrwsel ym mis Medi, mis Hydref a mis Mawrth. Mae CALRE yn fforwm arbennig lle y gall sefydliadau rannu arfer a phrofiadau da, fel yr ymgynghoriad yn dwyn ynghyd y dulliau gwahanol a ddefnyddir gan aelodau CALRE i gefnogi'r gwaith o ymgysylltu â phobl ifanc, sef syniad a roddwyd ar waith gan Lywydd y Cynulliad.

*Cysylltiadau/gwaith gyda deddfwrfeydd y DU ar faterion yr UE*

Mae'r Dirprwy Lywydd yn cymryd rhan yn Fforwm y Comisiwn Ewropeaidd a'r DU, sy'n dod â Chadeiryddion Pwyllgorau Ewrop a swyddogion cyfatebol o Senedd y DU, Senedd yr Alban, Cynulliad Gogledd Iwerddon a Chynulliad Cenedlaethol Cymru ynghyd. Cynhaliwyd y cyfarfod diwethaf yn Nhŷ'r Arglwyddi ym mis Tachwedd, a bwriedir cynnal y nesaf yng nghanol mis Mehefin, ar ôl etholiadau Senedd Ewrop. Cyfarfod anffurfiol yw Fforwm y Comisiwn Ewropeaidd a'r DU, a gynhelir yn unol â 'rheolau Chatham House', sy'n gyfle i rannu gwybodaeth, gwaith sy'n mynd rhagddo a gwaith a gynlluniwyd mewn perthynas â'r UE. Mae hyn yn cynnwys gwaith ar faterion sybsidiaredd, Rhaglen Waith y Comisiwn Ewropeaidd, a pholisïau/materion sydd o ddiddordeb cyffredin, sy'n cael ei ategu gan gysylltiadau cadarnhaol parhaus rhwng y swyddogion drwy'r flwyddyn.

*Gwaith yn ymwneud â'r UE yn y Pwyllgorau*

| | |
|---|---|
| Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol | Rôl Cymru yn y broses o wneud penderfyniadau yn yr UE<br><br>Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mawrth, i'w drafod ar 6 Mehefin.<br><br>Roedd y gwaith o gasglu tystiolaeth yn cynnwys ymweliadau 'rapporteur' a Brwsel i gwrdd ag Aelodau o Senedd Ewrop, swyddogion o sefydliadau'r UE, rhwydweithiau'r UE a chynrychiolaethau sy'n gweithio ym Mrwsel. |
| Y Pwyllgor Menter a Busnes | **Cyfleoedd Cyllido yr UE**<br><br>Bwriedir cyflwyno adroddiad ym mis Gorffennaf.<br><br>Roedd y gwaith o gasglu tystiolaeth yn cynnwys digwyddiad |

| | |
|---|---|
| Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol | Rôl Cymru yn y broses o wneud penderfyniadau yn yr UE<br><br>Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mawrth, i'w drafod ar 6 Mehefin.<br><br>Roedd y gwaith o gasglu tystiolaeth yn cynnwys ymweliadau 'rapporteur' a Brwsel i gwrdd ag Aelodau o Senedd Ewrop, swyddogion o sefydliadau'r UE, rhwydweithiau'r UE a chynrychiolaethau sy'n gweithio ym Mrwsel. |
| | allgymorth ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd ac ymweliad Pwyllgor â Brwsel.<br><br>Cafwyd tystiolaeth gan amrywiaeth eang o randdeiliaid o fyd addysg, diwylliant, busnes, trafnidiaeth, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. |
| Y Pwyllgor Menter a Busnes | **Rhwydweithiau Traws-Ewropeaidd, Masnach a Buddsoddi a STEM**<br><br>Bydd y gwaith hwn yn canolbwyntio at yr UE yn enwedig gwaith Llywodraeth Cymru i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd yn y meysydd hyn. |
| Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd | **Sesiynau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Polisi Amaethyddol Cyffredin a physgodfeydd**<br><br>Roedd y sesiynau'n cynnwys diweddariad gan Gwilym Jones, aelod o Gabinet Comisiynydd yr UE ar gyfer Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig.<br><br>Bwriedir cynnal sesiynau ar y **Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol hefyd.**<br><br>Mae'r Pwyllgor wedi cwblhau gwaith ar gynnig y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer **Cyfarwyddeb ar Rywogaethau Goresgynnol Estron**, ac wedi trafod **Polisïau Morol yr UE** fel rhan o'i waith ar faterion morol. Yn ddiweddar, aeth y Cadeirydd a swyddogion i gyfarfod Is-bwyllgor Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Physgodfeydd Tŷ'r Arglwyddi (Is-bwyllgor i Bwyllgor yr UE) er mwyn trafod y gwaith hwn, a disgwylir i hynny arwain at wella prosesau o ran cydweithio a rhannu gwybodaeth ynghylch gwaith sy'n ymwneud â'r UE yn y dyfodol. |
| Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc a'r | **Sesiynau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr UE**, a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr. Mae'r gwaith dilynol yn |

| | |
|---|---|
| Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol | Rôl Cymru yn y broses o wneud penderfyniadau yn yr UE<br>Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mawrth, i'w drafod ar 6 Mehefin.<br>Roedd y gwaith o gasglu tystiolaeth yn cynnwys ymweliadau 'rapporteur' a Brwsel i gwrdd ag Aelodau o Senedd Ewrop, swyddogion o sefydliadau'r UE, rhwydweithiau'r UE a chynrychiolaethau sy'n gweithio ym Mrwsel. |
| Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol | cynnwys ymweliadau posibl â'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc) a Brwsel yn ystod 2014-15, mewn perthynas â meysydd blaenoriaeth y Pwyllgorau hyn. |

*Mathau eraill o waith sy'n ymwneud â'r UE*

Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd ag Aelodau o Senedd Ewrop o Gymru, a chymerodd Aelodau o Senedd Ewrop ran yng ngwaith y Cynulliad, gan gynnwys ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i rôl Cymru yn y broses o wneud penderfyniadau yn yr UE. Datblygwyd cysylltiadau cryf â Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru, sydd o dan ofal David Hughes, gyda chyswllt rheolaidd a chyfraniad i waith ffurfiol ac anffurfiol y Cynulliad, yn ogystal â chysylltiadau â swyddfeydd Senedd Ewrop yn y DU.

**Atodiad C Sylw i Fusnes y Cynulliad yn y cyfryngau ers mis Ionawr 2014**

Yn ôl un o bwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol, rhaid i fethiannau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gael eu defnyddio i ddysgu gwers i bob bwrdd iechyd yng Nghymru.

Un o bwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol yn datgelu'r Siarter ar gyfer Masnachfraint Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau 2018

Un o bwyllgorau'r Cynulliad yn dweud bod angen eglurder o ran amcanion a disgwyliadau ardaloedd menter Llywodraeth Cymru

Un o bwyllgorau'r Cynulliad yn pryderu am y diffyg manylder yng nghynlluniau gaeaf byrddau iechyd Cymru

**Atodiad D Digwyddiadau ac ymweliadau rhyngwladol, gan gynnwys ymweliadau diplomyddol**

| Dyddiad | Manylion |
|---|---|
| 13 Ionawr | **Cynrychiolodd David Melding AC, y Dirprwy Lywydd,** y Cynulliad yng nghyfarfod Pwyllgor Amgylcheddol a Chymdeithasol y Cynulliad Seneddol Prydeinig-Gwyddelig fel rhan o'i ymchwiliad presennol i deithwyr Roma a gynhaliwyd yn Nulyn. |
| 13 Ionawr | **Cynrychiolodd William Powell AC** y Cynulliad yng nghyfarfod Pwyllgor Ewropeaidd y Cynulliad Seneddol Prydeinig-Gwyddelig fel rhan o'i ymchwiliad presennol i rôl Banc Buddsoddi Ewrop a gynhaliwyd yn Lwcsembwrg. |
| 20-21 Ionawr | Ymwelodd dirprwyaeth o Senedd Ffederal Canada, yn cynrychioli'r ddau dŷ, â'r Cynulliad i rannu a dysgu am yr arfer gorau mewn amrywiaeth o feysydd gan gynnwys Gweithio'n Ddwyieithog a'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd, gan gyfarfod â'r Llywyddion a swyddogion uwch. |
| 11 Chwefror | Ymwelodd Laszlo Andor, Comisiynydd yr UE ar gyfer Cyflogaeth, Materion Cymdeithasol a Chynhwysiant, â'r Cynulliad gan gwrdd â'r Llywydd. |
| 30 Mawrth - 1 Ebrill | Aeth David Melding AC, **y Dirprwy Lywydd, Joyce Watson AC, Darren Millar AC, , Lindsay Whittle AC** a**William Powell AC** i 48ain Cyfarfod Llawn y Cynulliad Seneddol Prydeinig-Gwyddelig a gynhaliwyd yn Nulyn. |
| 7 Ebrill | Ymwelodd Dinny McGinley TD, Gweinidog Gwladol Materion y Gaeltacht, â'r Cynulliad a chwrdd â'r Llywydd i drafod ieithoedd swyddogol yn y Senedd a dysgu mwy am Gynllun Ieithoedd Swyddogol y Cynulliad a'r feddalwedd Cyfieithu Peirianyddol a lansiwyd yn ddiweddar. |

*Ymweliadau diplomyddol*

Cynhaliodd y Llywydd yr ymweliadau diplomyddol canlynol i Fae Caerdydd yn ddiweddar. Yn ystod yr ymweliadau, rhoddodd drosolwg o'r Cynulliad a'i waith, a thrafododd bwysigrwydd hyrwyddo Cymru a democratiaeth Cymru ar lwyfan y byd a rôl gadarnhaol cysylltiadau diplomyddol i gyflawni hyn.

- 5 Rhagfyr – Ei Hardderchogrwydd Ms Alicia Castro, Llysgennad **yr Ariannin** i'r DU.
- 6 Rhagfyr – Ei Ardderchogrwydd Mr Claus Grube, Llysgennad **Denmarc** i'r DU.
- 31 Ionawr – Ei Ardderchogrwydd Mr Pasquale Q Terracciano, Llysgennad **yr Eidal** i'r DU.
- 5 Chwefror – Ei Ardderchogrwydd Dr Daniel Mulhall, Llysgennad **Iwerddon** i'r DU.
- 5 Mawrth – Ei Ardderchogrwydd Mr Sergei Aleinik, Llysgennad **Belarws** i'r DU.
- 6 Mawrth – Ei Ardderchogrwydd Mr Witold Sobków, Llysgennad **Gwlad Pwyl** i'r DU.

**Atodiad E Prosiectau a adolygwyd gan y Bwrdd Buddsoddi**

- Parheir i fonitro'r gwaith o drosglwyddo darpariaeth TGCh o Atos i'r adran fewnol;
- Cytunwyd i ariannu prosiect y wefan/SharePoint, a fydd yn sicrhau gwelliannau i wefan y Cynulliad, yn darparu gwell profiad i ddefnyddwyr ac yn ei gwneud yn haws i gael gafael ar wybodaeth;
- Cytunwyd ar ddull newydd o reoli prosiectau yn y Cynulliad gan olygu y gellir defnyddio dull cyson o reoli prosiectau;
- Parheir i fonitro ac adolygu dulliau'r Cynulilad o reoli contractau;
- Cytunwyd ar arian ychwanegol ar gyfer y prosiect llif gwaith darlledu, a fydd yn galluogi'r Cynulliad i ddarlledu deunydd mewn amrywiaeth ehangach o fformatau, gan gynnwys Manylder Uwch;
- Cymeradwywyd arian ar gyfer y gwaith o wella mynediad y cyhoedd i wasanaeth di-wifr y Senedd;
- Cymeradwywyd arian ar gyfer bolardiau diogelwch newydd er mwyn cynnal y lefel bresennol o ddiogelwch allanol ac i wella edrychiad yr ystâd a phrofiad y cyhoedd;
- Goruchwyliwyd y gwaith o weithredu ac ariannu cam 1 o brosiect Adnoddau Dynol/y Gyflogres. Bwriedir trafod cynnig ariannu ar gyfer cam 2 yn fuan;
- Goruchwyliwyd y gwaith o weithredu ac ariannu cam 1 o'r prosiect cyfieithu peirianyddol, gan gynnwys lansio Microsoft Translator ar gyfer y Gymraeg;
- Wrthi'n goruchwylio'r prosiect ymgysylltu â phobl ifanc a fydd yn gwella prosesau ymgysylltu a chyfranogi gyda'r grŵp hwn.

**Atodiad F - Rhyddid Gwybodaeth**

**GWYBODAETH A RYDDHAWYD YN DILYN CEISIADAU RHYDDID GWYBODAETH**

Hydref 2013 – Mawrth 2014

Cafwyd 21 o geisiadau am wybodaeth yn ystod y cyfnod rhwng mis Hydref 2013 a mis Mawrth 2014, yr ymatebwyd idynt drwy ryddhau'r wybodaeth y gofynnwyd amdani neu hysbysu'r ceisydd nad oedd y wybodaeth honno ar gael. Mae'r categorïau yn ymwneud â natur y cais.



Aelodau'r Cynulliad

- Hawl i ofal iechyd preifat
- Darpariaeth pensiwn Aelodau'r Cynulliad
- Cost lluniaeth alcoholig
- Nifer Aelodau'r Cynulliad sy'n feddygol ordew
- Cofnod pleidleisio
- Cost deunydd swyddfa Aelodau'r Cynulliad/y Comisiwn

Comisiwn y Cynulliad

- Streiciau newyn yn Nhŷ Hywel (x2)
- Nifer y cynorthwywyr ymchwil ac interniaid
- Cost cyngor allanol ar gysylltiadau cyhoeddus
- Cyflogi mewnfudwyr anghyfreithlon
- Staff a ddisgyblwyd am gam-drin cyffuriau ac alcohol
- Arian a wariwyd ar docynnau trên anghywir/rhai na chawsant eu defnyddio
- Cyflogi cyfreithwyr dan hyfforddiant

Ystadau/Cyfleusterau

- Eitemau a gawsant eu dwyn a chost eitemau newydd
- Tecstilau a ddefnyddiwyd yn y Senedd

- Cost rheoil plâu ar yr ystâd
- Cost cymorthdaliadau ar gyfer bwyd a diod
- Noddi cwmnïau tanwydd ffosil (cynlluniau nawr ac yn y dyfodol)
- Cost adnewyddu derbynfa Tŷ Hywel

Y Bwrdd Taliadau

- Sylwadau a wnaed i gefnogi menywod sy'n rhieni unigol.

## GWYBODAETH A DDALIWYD YN ÔL YN DILYN CEISIADAU RHYDDID GWYBODAETH

Hydref 2013 – Mawrth 2014

Cafwyd 16 o geisiadau am wybodaeth yn ystod y cyfnod rhwng mis Hydref 2013 a mis Mawrth 2014, y penderfynnwyd cadw'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn ôl. Dangosir yr eithriad perthnasol isod drwy gyfeirio at adran berthnasol Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Aelodau'r Cynulliad

- Cyflogi aelodau o'r teulu fel staff cymorth **Defnyddiwyd adran 40. (Data personol).**
- Cofnodion presenoldeb yn y Cyfarfod Llawn. **Defnyddiwyd adran 21. (Gwybodaeth ar gael eisoes mewn man arall).**
- Band cyflog a theitlau swyddi presennol y staff cymorth a gyflogir. **Darparwyd data dienw a defnyddiwyd adran 40.**
- Nifer y staff cymorth a chwynion a wnaed yn erbyn Aelodau'r Cynulliad (x2). **Gofynnwyd am brawf adnabod.**
- Taliadau a wnaed i staff cymorth ar adeg eu hymddiswyddiad/dod a'u cyflogaeth i ben (x2). **Defnyddiwyd adran 40.**
- Manylion am gar y Llywydd. **Defnyddiwyd adran 21.**
- Lwfans ail gartrefi a threuliau. **Defnyddiwyd adran 21.**

Comisiwn y Cynulliad

- Cost y prosiect Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus a chost/milltiroedd cerbyd y Llywydd. **Gofynnwyd am brawf adnabod.**
- Streiciau newyn yn Nhŷ Hywel (x2) **Defnyddiwyd adran 14 (cais blinderus) ac adran 40.**
- Gweithgarwch undebau llafur. **Defnyddiwyd adran 40.**
- Nifer y contractau llogi cerbydau/cytundebau hurbwrcas a manylion am gar y Llywydd. **Eithriad rhannol, defnyddiwyd adran 40.**
- Manylion am swyddogaethau'r gwasanaeth corfforaethol; y Gyflogres, Adnoddau Dynol, Cyllid/Cyfrifyddu a Chaffael. **Darparwyd data dienw a defnyddiwyd adran 40.**

Pwyllgorau/Deddfwriaeth

- Manylion am y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. **Defnyddiwyd adran 21.**